# Gwella cywirdeb data Adnabod Llinell y Galwr (CLI)

Ymgynghoriad ar newidiadau i'n Hamodau Cyffredinol ac arweiniad ategol ar ddarparu cyfleusterau CLI

**YMGYNGHORIAD:**

Dyddiad Cyhoeddi: 23 Chwefror 2022

Dyddiad Cau ar gyfer Ymatebion: 20 Ebrill 2022

# Cynnwys

## Adran

1. Trosolwg 1

# 1. Trosolwg

Mae diogelu defnyddwyr rhag niwed yn flaenoriaeth i Ofcom ac rydym yn pryderu am broblem gynyddol sgamiau a hwylusir gan alwadau a negeseuon testun.[1] Tacteg gyffredin a ddefnyddir gan sgamwyr yw 'sbŵffio' rhifau ffôn er mwyn iddynt ymddangos eu bod yn dod gan berson neu sefydliad dibynadwy, megis banc.  Pan fydd galwadau sgam yn ymddangos yn ddibynadwy, mae'n golygu bod dioddefwyr yn fwy tebygol o rannu gwybodaeth bersonol neu wneud taliad, a all arwain at niwed ariannol ac emosiynol sylweddol.

Mae ein rheolau yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr sicrhau bod gwybodaeth am y galwr ar gael er mwyn helpu'r sawl sy'n derbyn galwad i ddeall pwy sy'n ffonio nhw ac a ydynt am ateb yr alwad. Er hynny, mae newidiadau mewn technoleg wedi ei gwneud yn haws i sgamwyr gamddefnyddio'r data hwn er mwyn sbŵffio rhifau. Mae hyn yn cynnwys sgamwyr sydd wedi'u lleoli dramor ac yn defnyddio rhifau wedi'u sbŵffio fel yr ymddengys eu bod yn ffonio o'r DU.

Yn y ddogfen hon, rydym yn nodi cynigion i gryfhau ein rheolau a'n canllawiau i ddarparwyr nodi a rhwystro galwadau gyda rhifau sydd 'wedi'u sbŵffio'. Dylai hyn helpu i atal galwadau sgam rhag cyrraedd defnyddwyr ac yn y pen draw i leihau'r risg y bydd pobl yn cael eu twyllo. Nod yr ymgynghoriad hefyd yw ei gwneud yn gliriach i ddarparwyr sut rydym yn disgwyl iddynt ddefnyddio data sy'n gysylltiedig â galwadau.

### Beth rydym yn ei gynnig

Gelwir y data sydd ynghlwm wrth alwad yn ddata Adnabod Llinell y Galwr (CLI). Mae'n cynnwys rhif sy'n adnabod galwr a marc preifatrwydd, sy'n nodi a ellir rhannu'r rhif gyda'r person sy'n derbyn yr alwad. Mae sicrhau bod data'r CLI yn cynnwys rhif dilys y gellir ei ddeialu, a bod gan y galwr awdurdod i ddefnyddio'r rhif, sy'n bwysig er mwyn i bobl gael gwybodaeth gywir am bwy sy'n gwneud galwad pan fyddant yn ei derbyn. Gall hyn eu helpu i benderfynu a ydynt am ateb yr alwad ai beidio.

Rydym yn cynnig addasu un o'n rheolau (Amod Cyffredinol (AC) A6) i'w gwneud yn ofynnol i ddarparwyr, lle y bo'n dechnegol ymarferol, nodi a rhwystro galwadau gyda data CLI sy'n annilys, nad oes modd ei ddeialu, neu nad yw'n nodi'r galwr yn unigryw.

Rydym yn cynnig gwneud nifer o newidiadau i'n harweiniad i ddarparwyr ynghylch yr hyn yr ydym yn disgwyl iddynt ei wneud i gydymffurfio â'r rheolau yn AC A6.[2] Mae hyn yn cynnwys

- egluro y dylai fformat CLI fod yn rhif 10 neu 11 digid;
- defnyddio gwybodaeth sy'n nodi rhifau na ddylid eu defnyddio fel CLI, megis gwybodaeth am ddyraniadau rhifo Ofcom a'r rhestr Heb Ddangos Tarddiad (DNO);[3]

[1] Gweler Ofcom, Mawrth 2021. Cynllun Gwaith Ofcom 2021/22, tudalen 17.
[2] Atodiad 2: Arweiniad [Drafft] ar ddarparu cyfleusterau Adnabod Llinell y Galwr a gwasanaethau cysylltiedig eraill
[3] Mae Ofcom yn cadw rhestr o rai rhifau ffôn 'ffonio i mewn' yn unig yn y DU yn unig ac yn ei rannu â darparwyr telathrebu, eu cyfryngwyr a phartïon â diddordeb fel gwasanaethau rhwystro neu hidlo galwadau, fel y gellir rhwystro galwadau 'ffonio allan' o'r rhifau hynny. Rydym yn cyfeirio at hyn fel y rhestr 'Heb Ddangos Tarddiad' (DNO). Bydd galwadau 'ffonio allan' o rifau ar y rhestr DNO yn cael eu rhwystro ar lefel y rhwydwaith gan ddarparwyr (pan fo hynny'n dechnegol ymarferol) ac ar

- nodi galwadau sy'n tarddu dramor nad oes ganddynt CLI dilys a'u rhwystro; a
- nodi a rhwystro galwadau o dramor sy'n sbŵffio CLI y DU**.**

Gyda'i gilydd, dylai ein newidiadau arfaethedig i AC A6 a newidiadau arfaethedig cysylltiedig i'r arweiniad helpu darparwyr i nodi a rhwystro galwadau sydd â data CLI anghywir. Bydd rhwystro galwadau nad ydynt yn cydymffurfio â'n rheolau ar gyfer data CLI yn golygu na fydd galwadau gyda'r data CLI wedi'i sbŵffio'n fwyaf amlwg yn cyrraedd y derbynnydd arfaethedig. Dylai hyn helpu i leihau nifer y galwadau sgam sy'n cyrraedd defnyddwyr ac yn y pen draw nifer y bobl sy'n cael eu twyllo fel hyn.

Rydym hefyd yn gofyn am fewnbwn gan randdeiliaid ar:

- newidiadau arfaethedig i'r arweiniad CLI y mai ei nod yw egluro ein disgwyliad o ran y mathau o rifau y dylid eu defnyddio fel CLI, wrth ymateb i adborth gan ddarparwyr; a'r
- defnydd o rhifau 084 a 087 fel Rhifau Cyflwyno – sef rhifau a enwebir neu a ddarperir gan y galwr a all adnabod y galwr neu gael eu defnyddio i wneud galwad yn ôl neu alwad ddilynol.

Os caiff ei weithredu, dylai'r mesurau yn yr ymgynghoriad hwn helpu i ddod â rhai manteision uniongyrchol i ddefnyddwyr drwy helpu i rwystro mwy o alwadau sgam. Dros y tymor hwy, bydd cael prosesau sy'n canfod ac yn rhwystro rhifau wedi'u sbŵffio'n fwy cynhwysfawr yn bwysig wrth helpu i daclo galwadau sgam. Rydym yn ymchwilio i gyflwyno safonau technegol sy'n ei gwneud yn bosib i'r rhwydwaith y mae'r alwad yn tarddu ohono gadarnhau dilysrwydd y galwr cyn ei drosglwyddo i rwydwaith y person sy'n derbyn yr alwad, y cyfeirir ato fel 'dilysu CLI.' Rydym yn bwriadu cyhoeddi cais am fewnbwn yn C4 2022 i ofyn am farn ar rôl dilysu CLI a'r hyn y byddai ei angen i weithredu'r dechnoleg ar draws y diwydiant.

## Y camau nesaf

1.1 Rydym yn gwahodd ymatebion i'r ymgynghoriad hwn erbyn 20 Ebrill 2022. Yn amodol ar ystyried y safbwyntiau a'r dystiolaeth a gyflwynwyd mewn ymatebion, ein nod yw cyhoeddi penderfyniad ar ein cynigion yn hydref 2022.

1.2 Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhan o waith ehangach Ofcom i daclo galwadau a negeseuon testun sgam. Ochr yn ochr â'n cynigion i gryfhau ein rheolau a'n harweiniad i ddarparwyr ganfod a rhwystro rhifau sydd wedi'u sbŵffio, rydym yn ymgynghori ar ganllaw arfer da i helpu i atal sgamwyr rhag hygyrchu rhifau ffôn dilys. Rydym hefyd wedi ychwanegu gwybodaeth at ein gwefan i esbonio diben ein rhestr DNO a sut i gysylltu os credwch fod gennych rifau y dylid eu hychwanegu at y rhestr. Byddwn yn ystyried a ellir ehangu'r rhestr DNO i gynnwys rhifau o grŵp ehangach o sefydliadau.

1.3 Byddwn yn cynnal ymchwil ddilynol i nifer yr achosion o alwadau a negeseuon testun sgam i'n helpu i fonitro effaith y gwaith yr ydym ni ac eraill yn ei wneud, gan gynnwys ble i ganolbwyntio ein hymdrechion wrth i sgamwyr esblygu eu tactegau. Bydd yr ymchwil

---

y lefel gyflwyno gan wasanaethau rhwystro a hidlo galwadau. Mae rhagor o fanylion am y rhestr DNO wedi'u cynnwys ar ein gwefan: [‘Rhestr Heb Ddangos Tarddiad (DNO)]

hefyd yn cyfeirio ein gwaith parhaus o gynyddu ymwybyddiaeth o sgamiau a'r camau y gall pobl eu cymryd i ddiogelu eu hunain. Byddwn hefyd yn parhau i gydweithio â sefydliadau eraill sy'n gweithio i leihau sgamiau fel rhan o ddull cydgysylltiedig.